Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Problemau â Moch Daear: Cyngor i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad

Ym Mhrydain y ceir rhai o'r poblogaethau mwyaf o foch daear (*Meles meles),* fesul milltir sgwâr, yn Ewrop. Nid yw'n syndod felly, o gofio bod moch daear yn byw ar dir fferm ac yn agos i dai pobl, bod problemau'n codi weithiau. Gall y problemau hyn amrywio o ddifrod i dir neu gnydau amaethyddol i wanhau adeiladau fferm neu amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae moch daear sy'n creu eu brochfeydd (gwâl neu ffae) o dan ffyrdd a rheilffyrdd yn peryglu cerbydau a phobl. Ar y llaw arall, mae gwaith ffermio, coedwigaeth ac atal llifogydd yn gallu gwneud niwed i frochfeydd. Mae moch daear yn cael eu gwarchod o dan y gyfraith ac mae'r gosb am droseddau yn eu herbyn yn gallu cynnwys dirwyon trwm neu garchar, felly mae'n bwysig fod pawb sy'n gweithio yng nghefn gwlad yn gwybod sut i gadw at y gyfraith.

## Moch daear a'r gyfraith

Mae moch daear a'u brochfeydd yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 sy'n ei gwneud hi'n anghyfreithlon lladd, anafu neu gymryd mochyn daear neu aflonyddu ar frochfa. Mae aflonyddu'n golygu niweidio neu ddifetha brochfa, cau'r fynedfa iddi, gollwn ci ynddi neu darfu ar y moch daear all fod ynddi. Ond mae'r ddeddf yn caniatáu ichi wneud rhai pethau o dan drwydded.



Yng Nghymru, mae gan ddau gorff yr awdurdod i roi trwydded:

Caiff Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru roi trwydded er mwyn:

- eu rhwystro rhag gwneud difrod difrifol i dir, cnydau, adar dof neu unrhyw eiddo arall;
- atal clefyd rhag lledaenu;
- cynnal neu wella gwaith draenio neu amddiffynfeydd rhag llifogydd; neu
- unrhyw waith fferm neu goedwigaeth.

Caiff Cyfoeth Naturiol Cymru roi trwydded at ddiben:

- gwyddoniaeth neu addysg;
- gwarchod moch daear;
- datblygiad;
- gardd neu gasgliad swolegol;
- modrwyo neu farcio moch daear;
- cynnal archwiliad archeolegol o heneb neu ei diogelu; neu
- ymchwilio i unrhyw drosedd.

Mewn llawer achos, gall Cynghorwyr Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru roi cyngor ar sut i leihau'r difrod a achosir gan foch daear, heb orfod cael trwydded.

## Gwaith Fferm, Coedwigaeth a Rheoli Cyrsiau Dŵr

Bydd angen trwydded arnoch i aflonyddu ar frochfa nid yn unig pan fydd y moch daear yn achosi difrod ond hefyd pan y gallai gwaith fferm, coedwigaeth neu reoli cyrsiau dŵr ar neu wrth frochfa effeithio ar y frochfa honno. Mae aredig, plannu a chynaeafu cnydau, torri a chasglu coed ac adeiladu neu drwsio amddiffynfeydd rhag llifogydd yn enghreifftiau o waith o'r fath. Oherwydd mesurau gwarchod moch daear, rhaid cael trwydded gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith o'r math hwn sy'n aflonyddu arnyn nhw. Os nad ydych yn siŵr, holwch Lywodraeth Cymru (gweler Rhagor o Wybodaeth).

## Difrod gan Foch Daear

Mae moch daear yn gallu creu difrod wrth dyrchu am fwyd ac wrth balu tyllau.

**Tir, Cnydau ac Eiddo Arall**

Mae moch daear yn gallu damsang a sathru ydau, yn enwedig ceirch a gwenith, i'r llawr a bwyta peth o'r grawn. Fe welwch eu hôl yn aml ar batrwm 'cris-croes' yn y cnwd, ond ambell waith, fe welwch fod darnau mawr wedi'u lefelu, gan ei gwneud hi'n anodd cynaeafu'r cnwd. Maen nhw hefyd yn tynnu indrawn i'r llawr i fwyta'r grawn, gan leihau gwerth y cnwd fel porthiant neu os yw'n cael ei dyfu fel bwyd i bobl, ei wneud yn amhosib ei werthu. Maen nhw hefyd yn gallu difrodi cnydau garddwrol gwerthfawr fel ffrwythau meddal, ffrwythau perllan a gwinwydd. Ond lleol a thymhorol yw'r difrod hwnnw fel arfer.
Cwyn gyffredin yw'r difrod mae moch daear yn ei wneud i borfeydd (tir pori, silwair a dolydd). Mae moch daear yn tyrchu'r pridd ac yn codi tyweirch i gael at infertebratau'r pridd. Tymhorol yw'r difrod hwn hefyd. Bydd moch daear yn manteisio ar y toreth o bryfetach fel cynrhon chwilod bwm a chynrhon lledr (larfau jac-y-baglau/pryf teiliwr). Mae'r pryfed hyn yn gallu bod yn niweidiol i'r borfa. Os oes infertebratau eisoes wedi difetha gwreiddiau'r borfa, bydd y mochyn daear yn gallu rholio'r dywarchen fel carped. Ond mae'n tyrchu am fwydod (pryfed genwair) drwy'r flwyddyn, ac er ei fod ond yn tyrchu tamed bach o bridd ar y tro (fel arfer ddim mwy na 5-15cm o ddyfnder), gall effeithio ar ddarnau mawr o gae. Gall y pridd rhydd gael ei godi wrth wneud silwair (a'i lygru) gan greu perygl posib i dda byw ac i geffylau.

**Problemau gyda Brochfeydd**

Mae moch daear yn gallu creu problemau wrth greu brochfeydd newydd ar dir ffermio agored neu wrth estyn eu brochfeydd o goetir neu berth i dir amaethyddol neu hamdden o gwmpas. Mae ffiniau caeau yn gallu cael eu difrodi a rhannau o gaeau eu tanseilio. Mae twneli sydd wedi dymchwel yn gallu creu difrod i beiriannau a pheryglu da byw. Gall pentyrrau pridd. wrth frochfeydd hefyd fod yn niwsans, yn enwedig wrth droi a bacio cerbydau fferm. Mae brochfeydd yn gallu gwanhau adeiladau a thanseilio traciau a llwybrau. Mae brochfeydd o dan heolydd, rheilffyrdd a pheilonau trydan yn destun gofid arbennig.

**Amddiffynfeydd rhag Llifogydd, Cyrsiau Dŵr a Gwaith Draenio**

Wrth i foch daear greu brochfa, gall y pridd sy'n cael ei godi gael ei ollwng ar lan nant neu ffos a blocio llif y dŵr, gan gynyddu'r perygl o lifogydd lleol. Os bydd moch daear yn tyllu i mewn i argloddiau wrth y môr neu ar lan afon, maen nhw'n gwanhau'r arglawdd hwnnw ac yn creu perygl llifogydd difrifol iawn.

**Henebion**

Os bydd archwiliad archeolegol o heneb yn golygu aflonyddu ar frochfa, rhaid cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ond os ydy'r frochfa'n difrodi heneb sydd wedi/heb ei rhestru, mae hyn yn cael ei ystyried yn ddifrod i eiddo a Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod trwyddedu i gynnal gwaith trwsio allai effeithio ar y moch daear a'u gwâl.

**Hela**
Mae sôn ambell waith am foch daear yn lladd ffowls (dofednod) neu ŵyn, ac weithiau anifeiliaid anwes fel cwningod a moch cwta. Does dim dwywaith y gwnân nhw fwyta carcas dafad neu oen a brych. Mae'n anodd dweud yn bendant a ydyn nhw'n lladd ŵyn neu ffowls, ond os ydy'r storïau'n wir, byddai'n cael ei ystyried yn ymddygiad anghyffredin.

## Rheoli Problemau Moch Daear

Mae'r problemau tymhorol, fel tyrchu pridd, yn gallu bod yn dderbyniol am y cyfnod bach y maen nhw'n digwydd. Hefyd, gallai fod yn bosib rhwystro moch daear rhag mynd i safleoedd neu adeiladau bregus trwy gymryd mesurau i'w hatal.

**Ffensio**
O dan rai amgylchiadau, fe allai fod yn werth codi ffens, naill ai ffens drydan dros dro neu ffens dolen gadwyn drom barhaol. Er hynny, dylech asesu gwerth y difrod yn ofalus er mwyn bod yn siŵr bod unrhyw waith yn werth yr ymdrech. Er enghraifft, dim ond y cnwd wrth ymyl ffin y cae yn aml sy'n dioddef difrod ac o edrych arno o gât neu o ochr y cae, gall edrych yn waeth nag ydyw.

**Ffens drydan**
Mae ffens drydan yn gweithio orau os oes perygl o ddifrod tymhorol i gnwd. Gallwch redeg y ffens ar fatri car neu dransffformer 12v sy'n cael ei redeg o gyflenwad trydan y fferm. P'un bynnag a ddewiswch, bydd angen 'energiser' arnoch sy'n cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig.
Gallech ddefnyddio naill ai netin trydan atal cwningod neu ffens weiren dynnu neu 'polywire'. Ar gyfer ffens weiren dynnu neu 'polywire', gallwch ddefnyddio ffurf dwy weiren neu bedair weiren. Ar gyfer ffens dwy weiren, dylech osod y weiar 8cm (3") ac 20cm (8¾") o'r llawr. Ar gyfer ffens pedair weiren, dylai'r weiars fod 10, 15, 20 a 30cm (4, 6, 8, 12 modfedd) o'r llawr. Fe welwch gyngor ar ddefnyddio ffensys trydan i amddiffyn cnydau rhag moch daear yn nhaflen Llywodraeth Cymru (WM15) - Problemau moch daear: defnyddio ffens drydan i atal difrod amaethyddol.

**Mesurau atal**
Gallwch gryfhau tai allan, fel cytiau ieir, trwy osod ffens weiren drom i atal moch daear rhag gallu mynd iddyn nhw. Defnyddiwch ffens dolen gadwyn neu ffens 'weldmesh' – ni fydd netin atal cwningod neu 'netin ieir' 18 neu 19 ei drwch yn ddigon cryf. Mae moch daear yn ddringwyr da, felly dylech droi brig ffens netin tuag allan. Dylai'r ffens fod o leiaf 125cm (48") o uchder a dylech gladdu o leiaf 60cm (24") arall ohoni o dan ddaear. Fel arall, gallech osod y netin ar ei orwedd ar y llawr am 50cm (20") i gadw'r moch daear rhag tyllu.
I rwystro moch daear rhag estyn brochfa allan o lain o goed i'r cae, gallech osod rhwystr o dan ddaear mewn ffos ar hyd ffin cae. Fodd bynnag, iddi weithio, rhaid claddu ffens hyd at o leiaf 125cm (48") o ddyfnder. Mae ffosydd o'r math hwn yn gallu bod yn beryglus a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod ochrau'r ffos wedi'u cynnal neu fod y ffos yn ddigon llydan i fod yn ddiogel. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Y ffens orau ar gyfer y math hyn o beth yw naill ai ffens dolen gadwyn wedi'i galfaneiddio neu wedi'i gorchuddio â phlastig neu ffens 'weldmesh' ddur wedi'i galfaneiddio.

**Rheoli Infertebratau**
Yn ogystal â rhwystro moch daear, fe allai fod yn bosib rhwystro difrod i dir pori trwy reoli bwyd y moch daear, ac infertebratau yn fwyaf arbennig. Mae llawer o'r infertebratau hyn eu hunain yn difrodi'r borfa.

Ym Mhrydain, mwydod (pry genwair) yw prif fwyd y mochyn daear. Mae hyd y borfa yn effeithio ar allu mwydod i godi i wyneb y pridd, felly mae'n well gan foch daear borfa fer. Dyna pam y mae lawntiau yn eu denu gymaint.

Mae cynrhon jac-y-baglau (pryfed teiliwr) neu gynrhon lledr fel y'u gelwir yn gallu niweidio tir pori trwy fwyta gwreiddiau ond maen nhw'n fwyd tymhorol pwysig i foch daear. Yn y

gwanwyn y gwelwch niwed gan gynrhon lledr amlaf, pan fydd porfa'n dechrau tyfu. Amcangyfrifir bod pob cynrhonyn yn bwyta gram o ddeunydd sych. Mae ymchwilwyr yng Ngogledd Iwerddon wedi cyfrif bod cynrhon lledr yn gwneud gwerth £15 miliwn o ddifrod bob blwyddyn.

Mae cynrhon chwilod bwm yn creu problemau tebyg. Mae niferoedd mawr yn gallu crynhoi, yn enwedig ar laswelltir parhaol segur. Mae'r cynrhon yn torri gwreiddyn y borfa, ac wrth i'r moch daear dyrchu amdanyn nhw, maen nhw'n aml yn codi ac yn rholio'r dywarchen fel carped.

Mae'r mochyn daear felly, wrth dyrchu, yn gwaethygu'r broblem. Felly, trwy gael gwared ar y cynrhon, gallech leihau'r difrod sy'n cael ei wneud gan y moch daear. Bydd aredig ac ail-hau yn lleihau nifer cynrhon y ddwy rywogaeth, ond mae hynny wrth gwrs yn waith drud ac nid yw bob tro'n ymarferol. Cofiwch, o dan Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA) (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007, rhaid cyflwyno cais sgrinio i'ch Swyddfa Ranbarthol cyn aredig, ail-hau neu wrteithio tir lled-naturiol neu dir heb ei drin (e.e. porfa heb ei gwella gan gynnwys gweirgloddiau, gweunydd llawr gwlad ac arfordirol, rhos a phorfa arw ar y bryniau, tir prysg a thir gwlyb). Gallai llyfnu a rholio helpu i leihau nifer y cynrhon sydd ger wyneb y pridd gan leihau'r difrod gan foch daear. Os oes gennych bla o gynrhon, gallech ddefnyddio cemegau i'w rheoli. Ond gallai hynny fod yn anymarferol ar raddfa fawr a dylech ystyried yr effeithiau posibl ar infertebratau llesol (a'r rhywogaethau allai fod yn bwydo arnyn nhw). Dylech holi Entomolegydd/Agronomegydd am gyngor ar reoli pryfed. Hefyd, os oes gennych gontract Amaeth-amgylcheddol, holwch swyddog eich prosiect.

## Moch Daear a TB

Mae'r cysylltiad rhwng moch daear a TB mewn gwartheg yn gymhleth. Ond mae'n ddoeth cyfyngu gymaint ag y medrwch ar y cysylltiad rhwng gwartheg a moch daear. Rydyn ni'n gwybod bod moch daear yn mynd i mewn i adeiladu fferm a hyd yn oed yn dringo i gafnau bwydo, ac mae gwartheg yn aml yn chwilfrydig ynghylch brochfeydd. I gael cyngor ar sut i leihau'r risg o ledaenu TB, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

https://llyw.cymru/tb-mewn-gwartheg?_ga=2.202333400.875281654.1558609757-659739792.1558609757

## Trwyddedau

Rhaid cael trwydded i wneud unrhyw beth allai aflonyddu ar frochfa. Yn ôl Deddf Gwarchod Moch Daear 1992, brochfa yw “unrhyw adeiledd neu le lle gwelir arwyddion bod moch daear yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd”. Mae modd dehongli ‘defnyddio ar hyn o bryd’ mewn sawl ffordd ond nid yw'n golygu bod y moch daear yn gorfod bod yn bresennol yn ystod yr archwiliad ei hun. Os nad ydych yn siŵr, dylech holi Cynghorwyr Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru.

Mae sawl ffordd o asesu a yw brochfa'n cael ei defnyddio e.e. archwilio ceg y frochfa am olion traed a blew neu drwy osod brigau ar draws y geg. Bydd moch daear yn bwrw'r brigau o'u lle wrth fynd i mewn ac allan o'r frochfa. Os ydy brochfa fyw yn creu problemau, rhaid gofyn am drwydded cyn y cewch wneud unrhyw beth allai aflonyddu arni.

### Gwaith Ffermio neu Goedwigaeth

Mae trwyddedau'n cael eu rhoi i ffermwyr iddynt gael gwneud gwaith amaethyddol cyffredin dros frochfeydd. Mae'r trwyddedau hyn fel arfer yn para blwyddyn. Bydd amodau'r drwydded yn cadw'r niwed i'r frochfa mor fach â phosib. Er enghraifft, fel arfer ni chewch aredig at ddyfnder o fwy na 30cm (12 modfedd). Mae Cynghorwyr Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru sydd wedi bod yn monitro trwyddedau wedi sylwi bod moch daear yn gallu ailagor cegau brochfeydd sy'n cael eu cau gan weithgareddau o'r fath yn gyflym.

Gellir cael trwyddedau hefyd i gynnal gwaith coedwigaeth, fel teneuo, cwympo neu ailblannu yng nghyffiniau'r frochfa. Mae Canllaw rhif 9 yr Awdurdod Coedwigaeth “Forest Operations and Badger Setts” yn rhoi

arweiniad ar sut i gynnal gwaith coedwigaeth ger brochfeydd ac yn esbonio a oes angen trwydded. Holwch hefyd Gynghorwyr Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru.

**Cau brochfeydd**

Gellir rhoi trwyddedau i gau brochfa neu ran ohoni er mwyn rhwystro difrod difrifol i dir, cnydau, ffowls neu eiddo arall. Rhag trapio moch daear dan ddaear, dylech eu cau allan o'r frochfa trwy ddefnyddio gatiau unffordd. Mae'r gatiau hyn fel arfer wedi'u gwneud o bren ac yn cael eu gosod wrth fynedfeydd y frochfa. Maen nhw'n agor tuag allan yn unig er mwyn i'r mochyn daear allu gadael y frochfa ond ddim i fynd nôl. I gael manylion sut i wneud a defnyddio'r gatiau hyn, darllenwch daflen WM10 Llywodraeth Cymru - Gosod giât unffordd yng ngheg brochfa moch daear

Os nad yw'n ymarferol rhoi gatiau wrth bob un o gegau'r frochfa, gallwch roi gât yn sownd mewn ffens drydan sy'n amgylchynu'r frochfa gyfan.

Efallai y bydd angen ichi godi ffens weiren gref i rwystro moch daear rhag mynd yn ôl i frochfa y maen nhw wedi cael eu taflu ohoni.

## Rheoli Cadnoid

Bydd cadnoid (llwynogod) yn defnyddio brochfeydd weithiau fel cartrefi parhaol neu fel lloches dros dro. Os ydych am ddelio â chadno mewn brochfa fyw, rhaid gwneud hynny'n unol â Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 a Deddf Hela 2004. Ymhlith pethau eraill, mae'r deddfau yn ei gwneud yn drosedd:

- Aflonyddu ar frochfa (trwy balu am gadno) heb drwydded i wneud hynny;
- Cau brochfa am unrhyw reswm (i rwystro cadno rhag mynd iddi i lochesi) heb drwydded i wneud hynny;
- Gollwng ci i frochfa (er mwyn cwrso cadno ohoni) oni bai'ch bod yn gwneud hynny yn unol ag amodau llym yr eithriad ym mharagraff 2 Atodlen 1 Deddf Hela 2004, sy'n caniatáu ichi ddefnyddio un ci o dan ddaear i gwrso mamaliaid gwyllt i ddiogelu adar sy'n cael eu cadw ar gyfer eu saethu ("yr eithriad ar gyfer adar hela"). Rhaid cael trwydded cyn gollwng ci i frochfa o dan yr eithriad hwn.

Mae'r cyfrifoldeb am roi trwyddedau moch daear i reoli cadnoid yng Nghymru wedi'i rannu rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi trwyddedau er mwyn diogelu da byw ac adar hela mewn cewyll, ond mae CNC yn rhoi trwyddedau i ddiogelu bywyd gwyllt ac adar hela rhydd.

## Cŵn sydd wedi'u Dal mewn Brochfeydd

Mae'n drosedd gollwng ci i frochfa heb drwydded i wneud hynny. Os ydy'r ci'n cael ei ddefnyddio i hela mamal gwyllt, bydd yn rhaid cydymffurfio hefyd â gofynion 'eithriad y ciperiaid' yn Neddf Hela 2004.

Ond bydd ambell gi, yn enwedig daeargwn, yn mentro i frochfa o'i ran ei hun. Cyn aflonyddu ar frochfa i hôl ci sy'n sownd, rhaid cael trwydded gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd angen trwydded oni bai bod arwyddion bod moch daear yn defnyddio'r frochfa. (Am ragor o wybodaeth ynghylch asesu a yw'r frochfa'n fyw neu beidio, gweler Trwyddedau).

I gael trwydded, rhaid profi bod y ci yn y frochfa, ei fod yn fyw a bod modd ei achub. Mae peryglon o gloddio brochfa; gallai'r twneli ddymchwel a pheryglu'r ci a phobl. Daw'r rhan fwyaf o gŵn allan yn ddianaf ohonyn nhw eu hunain o fewn 48 awr, felly fel arfer ni chaiff trwydded ei rhoi tan ar ôl i 48 awr fynd heibio. Gall Cynghorwyr Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru eich cynghori ar beth i'w wneud.

Gwaetha'r modd, ni all Llywodraeth Cymru gynnig gwasanaeth trwy'r dydd, bob dydd. Os aiff eich ci'n sownd dros y penwythnos a bod angen cyngor ar unwaith arnoch, gallech gysylltu â Swyddog Bywyd Gwyllt yr Heddlu leol neu'r RSPCA. Gellid holi grwpiau moch daear lleol a yw'r frochfa'n fyw neu beidio. Os na fydd y ci wedi ymddangos erbyn diwedd y penwythnos a bod angen trwydded, cysylltwch â Llywodraeth Cymru (gweler Rhagor o Wybodaeth). Ni ddylai'r amser

sydd wedi'i golli ichi allu cysylltu â Llywodraeth Cymru effeithio ar eich ci gan fod cŵn yn gallu byw am sawl diwrnod heb ddŵr na bwyd ac fel arfer, byddem wedi rhoi 48 awr i'r ci ymddangos ohono'i hun p'run bynnag.

## Rhagor o wybodaeth

- Am gyngor ynghylch datrys problemau gyda moch daear ac ar drwyddedau, cysylltwch â Chynghorydd Bywyd Gwyllt, e-bost: Wildlife@llyw.cymru neu Ffôn 0300 061 5920.

- Mae cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru am foch daear a thaflenni am natur ac anifeiliaid gwyllt eraill ar gael ar lein yn: https://llyw.cymru/gwarchod-bywyd-gwyllt-a-chynefinoedd

- Am gyngor ar foch daear, gwartheg a TB, cysylltwch â swyddfa leol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

- Mae cyhoeddiadau defnyddiol ar wefannau APHA a Llywodraeth Cymru i helpu ffermwyr gwartheg a cheidwaid anifeiliaid eraill ym Mhrydain yn y frwydr yn erbyn TB.

Mae taflen y Comisiwn Coedwigaeth: :
"Forest Operations and Badger Setts – Forestry Practice Guide 9" ar gael am ddim oddi wrth Forestry Commission Publications, PO Box 25, Wetherby, West Yorkshire LS23 7EW Ffôn 0870 121 4180 neu gallwch ei lawrlwytho am ddim o'u gwefan: http://www.forestry.gov.uk/pdf/fcpg9.pdf/$FILE/fcpg9.pdf

- I ddysgu am y trwyddedau a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ewch i: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/protected-species-licensing/uk-protected-species-licensing/badger-licences-issued-by-natural-resources-wales-and-the-welsh-government/?lang=cy

Maen nhw wedi cyhoeddi llyfryn o'r enw "Moch Daear: Arweiniad ar gyfer Datblygwyr". Os oes gennych gwestiynau, ffoniwch 0300 062 3000.

- Os hoffech ffurflen gais sgrinio o dan yr EIA, cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol:
  - Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East, Llandrindod, Powys LD1 5HA Ffôn. 01597 823777
  - Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9RZ Ffôn. 03000 625034
  - Adeiladau'r Llywodraeth, Teras Picton, Caerfyrddin SA31 3BT Ffôn. 01267 225300